
# Pecyn Cynllun Cysgodi Uwchradd



GWOBRAU
TIR NA N-OG
AWARDS 2026

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# CYNNWYS


Y RHESTR FER 3

SBARDUN SGWRS 5

GWEITHGAREDDAU
*Gwen ac Arianrhod* 6

ADNABOD AWDUR A DARLUNYDD
Lleucu Gwenllian 7

GWEITHGAREDDAU
*Anfarwol* 9

ADNABOD AWDUR
Rebecca Roberts 10

GWEITHGAREDDAU
*Y Garthen* 12

ADNABOD AWDUR
Sioned Wyn Roberts 13

GWEITHGAREDDAU
*Y Cae Ras* 15

ADNABOD AWDUR
Manon Steffan Ros 16


SYLWADAU'R BEIRNIAID 18

MATRICS SGORIO 19

NODIADAU 20

CARDIAU PLEIDLEISIO 21

# Y RHESTR FER





## *Gwen ac Arianrhod*

**Nofel graffig**

**Awdur a Darlunydd: Lleucu Gwenllian**
**(Gwasg Carreg Gwalch)**

Dydi symud i ysgol newydd byth yn hawdd; mae'n anoddach fyth pan nad ydach chi'n ffitio i mewn. Digon diflas ydy bywyd wedi bod i Gwen ers iddi symud i Gricieth. Mae'r tywydd yn wael, does ganddi ddim ffrindiau, ond yn waeth na dim, mae ganddi ffobia o nofio erbyn hyn. Hiraetha am ei bywyd yng Nghaerdydd, ac yn arbennig am ei ffrind gorau, Non.





## *Anfarwol*

**Ffuglen Arswyd**

**Awdur: Rebecca Roberts**
**(Atebol)**

Mae chwech disgybl Ysgol Uwchradd Glan y Gors yn mynd ar drip ysgol i wersyll Coed Daniel. Ond nhw ydi'r unig ddosbarth sy'n llwyddo i gyrraedd pen y daith. Mae'r criw yn gaeth yn y gwersyll, mae'r goedwig gyfagos yn llawn bwystfilod, ac mae eu hathrawes yn sâl. A fedran nhw weithio gyda'i gilydd er mwyn achub ei bywyd hi a ffoi rhag y gelyn anfarwol?





## *Y Garthen*

**Ffuglen hanesyddol**

**Awdur: Sioned Wyn Roberts**
**(Atebol)**

Antur hanesyddol am Pegi, merch 13 oed sy'n byw efo'i brawd, Ifan, a'i nain ffwndrus. Mae Pegi ac Ifan yn gweithio yn Ffatri Wlân Rhyd Ddu, Pen Llŷn. Un bore, daw Pegi o hyd i gwdyn o arian wedi'i ddwyn o'r ffatri ac mae Amos Williams, rheolwr y ffatri, yn cyhuddo Ifan o'i ddwyn.




## *Y Cae Ras*

**Ffuglen gyfoes**

**Awdur: Manon Steffan Ros**
**(Y Lolfa)**

Nofel am deulu, am gariad, am bêl-droed – ac am gefnogi tîm Wrecsam i'r carn. Mae bywyd Danny, 12 oed, yn gymhleth. Mae Mam wedi cael cariad newydd sydd ddim at ddant Mali, ei efaill, a daw hyn â newid byd i'r teulu bach sy'n byw yng nghysgod y Cae Ras.

**Cofiwch fod rhai o'r llyfrau ar gael yn ddigidol fel e-lyfrau hefyd. Ewch i'ch siop lyfrau, llyfrgell leol neu ein gwefan ffolio.cymru i ddod o hyd i'r teitlau uchod ac am fwy o wybodaeth.**

# SBARDUN SGWRS




## Cwestiynau a Phwyntiau Trafod

- Beth wnaethoch chi ei fwynhau fwyaf am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Beth wnaethoch chi ddim ei fwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad yn y llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Beth hoffech chi ei newid am y llyfr a pham? Sut basech chi'n ei newid?
- Beth yw eich barn chi am glawr y llyfr?
- Pa gwestiynau oedd gennych chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Pa gwestiynau sydd gennych chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Disgrifiwch y llyfr mewn tri gair.
- Petaech chi'n cwrdd â'r awdur, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddo neu iddi?
- Ydych chi'n credu bod y teitl yn gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fyddech chi'n galw'r llyfr?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha ffordd?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fasech chi'n castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Yn eich barn chi, fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio ar y stori? Ym mha ffordd?
- Petai tri chopi o'r llyfr gennych i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fasech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- Gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma?
- Beth yw eich barn chi ar y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?
- Oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?
- Ydych chi'n hoffi'r darluniadau/lluniau? Pam hynny?
- Oes gennych chi hoff lun yn y llyfr? Pam mai dyna yw eich hoff lun?
- Yn eich barn chi, beth mae'r lluniau yn ychwanegu at y stori?

# GWEITHGAREDDAU

## *Gwen ac Arianrhod*




### Gweithgaredd 5 munud

Ar dudalen 65, mae Gwen yn taflu ei llyfr i'r môr. Mewn pâr neu grŵp, trafodwch sut mae ymddygiad Gwen yn effeithio ar ein hamgylchedd? Gallwch chi feddwl am enghreifftiau eraill o sut rydym yn peryglu'r amgylchedd a sut i'w datrys?

### Gweithgaredd 10 munud

Beth am greu ffeil-o-ffaith am Gwen gan gynnwys y canlynol:


- Enw
- Oed
- Diddordebau
- Ffaith ddiddorol amdani hi
- Cas beth / hoff beth
- Un wers mae hi'n ei dysgu yn y stori

### Gweithgaredd 30 munud

Beth am ysgrifennu crynodeb o'r stori gan ddefnyddio'r trydydd person, neu o safbwynt cymeriad arall? Fedri di ddefnyddio'r darluniau i dy helpu, a geiriau disgrifiadol i liwio dy waith.

### Gweithgaredd Gwers Gyfan

Ar dudalen olaf y llyfr, rydym yn gweld person dirgel. Beth am ysgrifennu dilyniant i'r stori gan greu dy graffig dy hun?



**MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD**

Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Celfyddydau Mynegiannol ac Iechyd a Lles.

# LLEUCU GWENLLIAN



### Cyflwynwch eich hun:

Dwi'n awdur-ddarlunwraig o Flaenau Ffestiniog a bellach dwi wedi ymgartrefu ym Macedonia yn ne-ddwyrain Ewrop, lle dwi'n cymryd mantais o'r tywydd braf i fynd i gerdded mynyddoedd gyda fy ngŵr a fy nghi ar bob cyfle. Os dwi ddim â phensil yn fy llaw neu'n hel llus ar ben mynydd, rydych yn siŵr o fy ffeindio i mewn cornel yn rwla efo fy nhrwyn mewn llyfr.

### Cyflwynwch eich llyfr:

Nofel graffig yw hon, yn dilyn egin gyfeillgarwch y ddau brif gymeriad wedi i Gwen symud i fyw i ardal arall. Mae'r stori wedi'i gosod rhwng Cricieth a Chantre'r Gwaelod, ac yn delio â themâu megis bwlio, galar, a heriau tyfu i fyny.

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

Cyfresi Harry Potter a Percy Jackson, *Hi yw fy Ffrind*, *Inkheart*, a *Chwaer Fawr Blodeuwedd* ydi'r teitlau sy'n dod i fy meddwl yn syth.

**Hoff fwyd?**

Bara cartref.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Luna Lovegood.

**Hoff air?**

*Kokoshka* (iâr mewn Macedoneg).

**Superpower o ddewis?**

Gallu stopio amser – mwy o amser i ddarllen a darlunio.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**

*Nausicaä of the Valley of the Wind.*

**Hoff le?**

Copa Moelwyn Mawr neu Lyn Golemo Ezero, Macedonia.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Pan mae'r adar bach yn dod yn ôl i'r ardd yn y gwanwyn.

**Top tip i ddarpar awdur / darlunwyr?**

Sgwennwch, darluniwch a darllenwch bob cyfle gewch chi.

# LLEUCU GWENLLIAN



## Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Blaenau Ffestiniog.

## Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Roeddwn i'n hoffi darllen ac yn mwynhau'r rhan fwyaf o bynciau yn yr ysgol (heblaw am ymarfer corff). Roedd yn gas gen i orfod siarad o flaen y dosbarth – lot gwell gen i guddio tu ôl i lyfr!

## Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Artist, wedyn dylunydd ffasiwn, wedyn biolegydd morol, wedyn *interior designer*, wedyn artist eto.

## Beth yw eich diddordebau?

Dringo mynyddoedd, darllen a dysgu am fyd natur.


## Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur/darlunydd?

Y peth gorau ydi gallu byw mewn byd dychmygol – mae sgwennu a darlunio'n teimlo fel ymgolli mewn llyfr da, ond mae o hyd yn oed yn fwy cynhyrfus gan nad oes neb yn gwybod sut mae'r stori'n gorffen eto! Yn fy ngwaith fel darlunwraig, dwi wrth fy modd yn cael y fraint o ddod â chymeriadau awduron eraill yn fyw, a chael bod yn un o'r bobl gyntaf i ddarllen y straeon.

Dwi ddim isio dweud fod unrhyw beth yn elfen "ddrwg" o'r gwaith, achos mae gallu sgwennu a darlunio bob dydd yn freuddwyd, ond y peth sy'n gallu teimlo fel sialens weithiau ydi natur unig y gwaith – dwi'n *introverted* ofnadwy felly'r rhan fwyaf o'r amser dwi'n ddiolchgar am y llonyddwch. Weithiau bydd diwrnod cyfan yn mynd heibio heb i fi siarad efo neb (heblaw am y ci...).

# GWEITHGAREDDAU

## *Anfarwol*




### Gweithgaredd 5 munud

Darllena'r ddwy dudalen gyntaf lle mae Cian yn mynd ar daith breswyl ar ei ddiwrnod cyntaf ym Mlwyddyn 7. Trafodwch mewn pâr neu grŵp:

- Sut mae'r cymeriad yn teimlo?
- Sut fyddet ti'n teimlo yn yr un sefyllfa?

### Gweithgaredd 10 munud

Mewn pâr neu grŵp, trafodwch: Beth fyddai'n digwydd pe na bai'r corff yn heneiddio?

Beth am greu proffil 'Corff Cryf' gan gynnwys:

- Bwydlen (brecwast, cinio a swper)
- Sut i gadw'n heini
- Gweithgareddau llesol i'w gwneud


### Gweithgaredd 30 munud

Petai'r llyfr yn cael ei drosi'n ffilm, dylunia boster i'w hyrwyddo. Mae angen i ti gynnwys:

- Cymeriad(au) o'r llyfr
- Dyfyniad dy hun am y llyfr
- Gwybodaeth am docynnau / amser rhyddhau

### Gweithgaredd Gwers Gyfan

Mewn pâr neu grŵp, dewiswch ddau gymeriad o'r llyfr, neu beth am greu dau gymeriad eich hun. Yna, ysgrifennwch sgript lle mae'r cymeriadau'n wynebu penderfyniad anodd ac yn gorfod dod o hyd i ffordd o'i ddatrys. Gallwch chi berfformio'ch sgriptiau o flaen y ddosbarth.



**MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD**

Iechyd a Lles, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, a'r Celfyddydau Mynegiannol.

# REBECCA ROBERTS



## Cyflwynwch eich hun:

Dwi'n byw yng ngogledd Sir Ddinbych gyda fy ngŵr, fy mhlant a'n ci, Dexter. Dwi'n gweithio i'r Mudiad Meithrin, ac yn ennill fy mywoliaeth drwy ysgrifennu pob math o bethau. Dwi'n ysgrifennu nofelau i oedolion a phobl ifanc, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Cyflwynwch eich llyfr:

Ydych chi erioed wedi gwylio ffilm neu ddarllen llyfr a meddwl, 'Be fyddwn i'n ei wneud yn y fath sefyllfa?' Wel, dyna wnes i wrth ysgrifennu *Anfarwol*! Mae'n stori arswyd am griw o bobl ifanc sy'n mynd ar drip ysgol erchyll. Mae'n rhaid iddyn nhw guddio rhag sombis, achub bywyd eu hathrawes a chanfod ffordd i ddianc – a gwneud hynny oll drwy'r Gymraeg achos dydi'r sombis yma ddim yn hoffi clywed pobl yn siarad ieithoedd eraill. Mae 'na waed, dagrau a marwolaeth; ond hefyd dewrder, dyfeisgarwch a chyfeillgarwch.

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Ballet Shoes* gan Noel Streatfeild.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Matilda o'r llyfr gan Roald Dahl.

**Hoff fwyd?**
Swshi, neu korma gyda bara naan.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
Dwi wrth fy modd yn gwylio *Gladiators* ar nos Sadwrn gyda'r teulu.

**Superpower o ddewis?**
Gallu teithio yn ôl mewn amser.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Jôcs gwael fy ngŵr.

**Hoff le?**
Does unman yn debyg i adre.

**Hoff air?**
Effemera.

**Swydd ddelfrydol tasech chi ddim yn awdur?**
Gweithio mewn llyfrgell neu siop lyfrau.

**Top tip i ddarpar awduron?**
Darllenwch yn eang ac yn aml!

# REBECCA ROBERTS

### Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Ges i fy ngeni yn y Rhyl, a fy magu ym Mhrestatyn. Fues i'n byw yno tan yn ddiweddar iawn.

### Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Ro'n i wastad yn mwynhau amser darllen. Un o fy hoff atgofion oedd yr hanner awr cyn amser mynd adref, pan fyddwn ni'n eistedd ar glustogau a bagiau ffa yn y gornel ddarllen ac yn gwrando ar Mr Ellis yn darllen. Fo wnaeth fy nghyflwyno i farddoniaeth.

### Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Ers bod yn yr ysgol gynradd ro'n i'n gwybod fy mod i am ysgrifennu llyfrau, ond o ran gwaith, doedd gen i ddim clem! Dwi'n caru cŵn ac am rai blynyddoedd wnes i ystyried gweithio gyda chŵn, fel hyfforddwr neu drwy ofalu amdanyn nhw.

### Beth yw eich diddordebau?

Dwi'n mwynhau nofio yn y môr, darllen, mynd i gerdded, a chwarae pêl-fasged cadair olwyn gyda fy mhlant.

### Beth yw'r peth gorau am fod yn awdur?


Y peth gorau ydi pan mae'r stori'n llifo ac mae byd fy nychymyg yn teimlo'r un mor real â'r byd go iawn. Mae'n deimlad anhygoel i weld y stori'n tyfu ac yn esblygu ar y dudalen o'm mlaen i.

Y peth gwaethaf ydi'r prawfddarllen. Dwi'n ofnadwy am wirio fy iaith fy hun – dwi'n methu gweld y gwallau o gwbl. Diolch byth fod gen i olygyddion arbennig!



# GWEITHGAREDDAU

## Y Garthen




### Gweithgaredd 5 munud

Mewn pâr neu grŵp, ewch ati i archwilio gwahanol ddeunyddiau sydd eu hangen i greu carthen, e.e: gwlân a chotwm. Gwnewch ddiagram venn i gymharu'r ddau ddeunydd gan ystyried, e.e pa un yw'r cynhesaf, cryfaf neu'r rhataf?

### Gweithgaredd 10 munud

Mewn pâr neu grŵp, dadansoddwch y teitl, clawr a'r broliant.

- Ystyriwch bwysigrwydd y teitl i'r stori.
- O ddarllen y broliant, allwch chi feddwl am un cwestiwn yr hoffech chi gael ateb iddo?
- Beth yw pwysigrwydd y delweddau sydd ar y clawr?

### Gweithgaredd 30 munud

10 munud: Darllena'r ddwy bennod gyntaf.

10 munud: Ysgrifenna 5 cwestiwn yn seiliedig ar y cynnwys.

10 munud: Cyfnewid dy gwestiynau gyda ffrind i'w hateb.


**MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD**

Iechyd a Lles, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Dyniaethau, a'r Celfyddydau Mynegiannol.

### Gweithgaredd 30 munud

Beth am greu cyflwyniad o gyfnod Oes Fictoria a'i gymharu gyda Chymru heddiw? Ystyria'r canlynol:

- Diwylliant
- Gwisg / dillad
- Cartrefi
- Swyddi
- Addysg
- Cymunedau
- Adloniant
- Trafnidiaeth



# SIONED WYN ROBERTS



## Cyflwynwch eich hun:

Rwy'n awdur ers tua chwe mlynedd ac wrth fy modd yn creu cymeriadau a meddwl am straeon cyffrous. Rwy'n hoff iawn o ysgrifennu nofelau hanesyddol am fywydau ac anturiaethau plant ers talwm, er bod eu bywydau yn gallu bod yn anodd iawn. Mae ysgrifennu llyfrau stori-a-llun a gweithio efo darlunwyr dawnus yn hwyl hefyd, ac mae'n fendigedig gweld y darluniau yn dod â'r stori yn fyw. Cyn bod yn awdur, ro'n i'n gwneud cartŵnau ac mae hynny wedi fy nysgu i sut i ddefnyddio comedi a chadw deialog yn fyr er mwyn i'r lluniau gael dweud y stori.

## Cyflwynwch eich llyfr:

Mae *Y Garthen* yn antur hanesyddol wedi'i gosod yn Oes Fictoria. Prif gymeriad y nofel yw Pegi Pwll Bach, merch unigryw a chreadigol ond sydd hefyd yn ofnadwy o swil. Ar ôl i Pegi ddarganfod trysor yn yr afon mae popeth yn mynd o'i le, a'i brawd, Ifor, sy'n cael y bai am ddwyn. A fydd Pegi yn llwyddo i achub Ifor yn ogystal â gofalu am ei nain, sy'n mynd yn fwy ffwndrus bob dydd? Nofel gyffrous am ferch sy'n gorfod bod yn ddewr a herio awdurdod.

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Mae Miss Havisham o *Great Expectations* gan Charles Dickens yn gymeriad gwych am ei bod hi mor annymunol.

**Hoff fwyd?**
Cinio dydd Sul neu frechdan bacwn a sos coch.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Babi eliffantod ar Instagram.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
*Paddington 2 / Deian a Loli*

**Superpower o ddewis?**
Siarad efo anifeiliaid.

**Hoff le?**
Traethau Pen Llŷn.

**Hoff air?**
Ansbara-digaethus.

**Swydd ddelfrydol tasech chi dim yn awdur?**
Cynllunydd dillad.

**Top tip i ddarpar awduron?**
Jest dechreua ysgrifennu, paid ag oedi, cer amdani a gweld be sy'n dod.

# SIONED WYN ROBERTS

### Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Pwllheli.

### Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Ro'n i'n hoffi cael hwyl efo ffrindiau ac yn casáu Lladin (oes unrhyw un yn astudio Lladin rŵan?).

### Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?


Deintydd!

### Beth yw eich diddordebau?

Darllen, ffilm, cerdded, celf.


### Beth yw'r peth gorau am fod yn awdur?

Y peth gorau yw creu byd a chymeriadau hollol newydd. A'r peth gwaethaf yw'r teimlad ofnadwy 'na pan ti ddim yn hapus efo'r ysgrifennu ond ddim yn siŵr sut i'w wella.



# GWEITHGAREDDAU

## *Y Cae Ras*




### Gweithgaredd 5 munud

O'r hyn rwyt ti wedi ei ddarllen o'r llyfr, beth am edrych ar sylwadau'r beirniaid ar dudalen 18 yn y pecyn hwn: wyt ti'n cytuno neu yn anghytuno?

### Gweithgaredd 10 munud

Ar dudalen 152, beth am drafod sut mae Mali a Cara'n yn ymateb yn wahanol i fwyta cig moch? Gwna dabl o blaid ac yn erbyn bwyta / ddim bwyta cig.

### Gweithgaredd 30 munud

Ar dudalen 116, mae Mali yn llunio rhestr o'r holl bethau mae hi'n hoffi am ei thad. Beth am lunio rhestr debyg (o leiaf 5 pwynt) am rywun sy'n arbennig i ti, gan gynnwys paragraff i bob pwynt yn egluro pam.

### Gweithgaredd Gwers Gyfan


Mae Mail a Danny yn byw "o fewn dim i stadiwm y Cae Ras yn Wrecsam". Mae clwb pêl-droed yn bwysig mewn cymuned. Fedri di feddwl am enghraifft arall lle mae cymuned yn bwysig?

Mewn grwpiau, beth am ddylunio canolfan gymunedol? Meddyliwch am y gair 'cymuned' a beth mae'n ei olygu i chi.

Meddyliwch am y math o gyfleusterau hoffech chi eu cynnwys. Oes gofod y tu allan, er enghraifft? Pa fath o ddigwyddiadau, sesiynau a gweithgareddau fyddech chi'n eu cynnwys ar yr amserlen wythnosol? Ar gyfer pa oed? Beth yw enw'r ganolfan? Gallwch chi ddylunio'r ganolfan ar bapur neu ddefnyddio technoleg.

**MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD**

Iechyd a Lles, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Dyniaethau a'r Celfyddydau Mynegiannol.



# MANON STEFFAN ROS



## Cyflwynwch eich hun:

Manon ydw i, a dwi'n caru darllen. Dyna pam dwi'n sgwennu – achos 'mod i isio creu llyfrau mor dda â'r rhai dwi'n cael y pleser o ddarllen. Dwi'n byw ym Meirionnydd efo fy nheulu, a dw i'n licio coginio a gwylio rwtsh ar YouTube.

## Cyflwynwch eich llyfr:

Llyfr am bêl-droed ydi *Y Cae Ras*, ond mae o am fwy na hynny hefyd. Ro'n i isio sgwennu am yr hyn sy'n digwydd pan fo teulu agos yn ymbellhau, a'r ffordd mae bywyd yn gleniach efo rhai pobol na phobol eraill. Mae'r cyfan wedi ei leoli yn Wrecsam, lle roedd teulu fy nain yn hanu.

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Boy* gan Roald Dahl, ac *O'r Tywyllwch* gan Mair Wynn Hughes.

**Hoff air?**
Trugaredd.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Captain Nemo o *Twenty Thousand Leagues Under the Sea* gan Jules Verne.

**Hoff le?**
Adra ar y ffarm efo cwmni ffrindiau a theulu, neu Gaernarfon.

**Hoff fwyd?**
Dwi isio dweud rhywbeth iach, ond mae'n anodd curo loaded fries o Burger King.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
*Jurassic Park*. Dwi WRTH FY MODD efo'r ffilm.

**Superpower o ddewis?**
Teithio mewn amser.


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Fy mhlant, a rhaglen wirion o'r 90au o'r enw *Shooting Stars*.

**Hoff le?**
Adra, lle bynnag fo hynny.

**Swydd ddelfrydol tasech chi dim yn awdur?**
Gweithio mewn amgueddfa, efallai.

**Top tip i ddarpar awduron?**
Darllenwch! Ond dim ond y pethau dach chi'n mwynhau.

# MANON STEFFAN ROS



## Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Fy ngeni ym Mangor a fy magu yn Rhiwlas.

## Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Ro'n i'n licio'r ysgol, yn enwedig Saesneg a Chymraeg, ond do'n i ddim yn mwynhau'r pethau doeddwn i ddim yn teimlo'n dda iawn am wneud – Addysg Gorfforol a Chelf. Ond fel dwi wedi mynd yn hŷn, dwi wedi sylweddoli 'mod i yn licio ymarfer corff a chelf, ond efallai mewn gwahanol ffyrdd.

## Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Awdur, erioed! Dyma swydd fy mreuddwydion a dwi'n methu coelio 'mod i'n cael gwneud hyn!

## Beth yw eich diddordebau?

Dwi'n licio mynd am dro, ac yn dechrau mwynhau garddio rŵan hefyd. A dwi wastad yn gwrando ar y radio neu ar bodlediadau. Ac, wrth gwrs, y prif ddiddordeb ydi darllen!


## Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?


Y peth gorau ydi bob dim – am beth hyfryd ydi bod yn awdur! Dwi'n cael sgwennu am unrhyw beth dwi isio, ac yn fy amser fy hun, hefyd. Dwi wedi bod yn eistedd yma'n trio meddwl am y peth gwaethaf, ond y gwir amdani ydi, dwi'n mwynhau popeth amdano.

# SYLWADAU'R BEIRNIAID

**Y beirniaid ar y panel Cymraeg ar gyfer 2026 oedd Rhys Dilwyn Jenkins (Cadeirydd), Helen Jones, Malachy Edwards a Loti Glyn. Dyma oedd eu sylwadau:**

Llyfr unigryw sy'n tynnu ar y galon; byddwch yn cwympo mewn cariad â byd Gwen a'i chyfaill, Arianrhod. Mae arddull graffig hon yn torri tir newydd ac yn llwyddo i archwilio amrywiaeth o emosiynau cymhleth trwy gyfrwng darluniau trawiadol.





Stori arswyd, anturus, llawn troeon annisgwyl: iasol a chynhyrfus! Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd meithrin siaradwyr newydd.

Nofel hanesyddol, gelfydd a chyffrous sy'n ymchwilio i bynciau dosbarth a chyfiawnder cymdeithasol, gan ddangos pŵer llais y plentyn i ddwyn drwgweithredwyr i gyfrif. Mae'r llyfr yn eich gwahodd i fyd gwahanol ac yn eich tywys ar hyd llwybr Pegi a chymeriadau cyfarwydd.




Nofel dyner a theimladwy sy'n portreadu'r heriau teuluol a wynebir gan frawd a chwaer, o dan gysgod y Cae Ras, cartref Clwb Pêl-droed Wrecsam. Ond mae'n stori sy'n trafod tipyn yn fwy na phêl-droed: mae'n ymdrin â themâu dwys ac amserol mewn ffordd sensitif a chrefftus. Darllenais i'r llyfr cyfan mewn un eisteddiad!


# MATRICS SGORIO

Efallai bydd sgorio'r llyfrau yn eich helpu i benderfynu pa lyfr yw'r gorau yn eich barn chi.

| Llyfr | Clawr<br>Broliant<br>/5 | Diwyg<br>Edrychiad<br>/5 | Arddull<br>Iaith<br>/5 | Cynnal<br>diddordeb<br>/5 | Cymeriadau<br>/5 | Cyfanswm<br>/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwestiynau | Ydych chi'n hoffi'r clawr?<br>Ydi'r broliant yn eich denu i ddarllen y llyfr?<br>Ydi'r clawr yn eich denu? | Ydych chi'n hoffi'r darluniau yn y llyfr?<br>Ydi'r darluniau yn ychwanegu at y stori?<br>Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol.<br>Ydych chi'n hoffi ffont y geiriau? Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol. | Pa fath o iaith mae'r awdur wedi ei defnyddio? e.e. tafodiaith, disgrifiadau, odlau.<br>Wnaethoch chi ddysgu unrhyw eiriau newydd wrth ddarllen y llyfr?<br>Oedd yr iaith yn rhy hawdd neu'n rhy anodd?<br>Oeddech chi'n deall yr iaith?<br>Oedd yr iaith yn ddiddorol? | Wnaethoch chi fwynhau'r llyfr?<br>Beth oedd yn cynnal eich diddordeb? e.e. doniolwch, antur, cymeriadau, gwybodaeth<br>Oeddech chi'n awyddus i ddarllen y llyfr i gyd?<br>Ydi'r llyfr yn mynd i aros yn eich cof?<br>Ydi'r llyfr yn un gwreiddiol? | Pa fath o gymeriadau oedd yn y llyfr?<br>Oedd y cymeriadau yn rhai diddorol/ credadwy?<br>Sut fyddech chi'n disgrifio'r cymeriadau?<br>Oedd y cymeriadau yn apelio atoch?<br>Oeddech chi'n gallu uniaethu â'r cymeriadau? | – |
| ***Gwen ac Arianrhod*** | | | | | | |
| ***Anfarwol*** | | | | | | |
| ***Y Garthen*** | | | | | | |
| ***Y Cae Ras*** | | | | | | |


# NODIADAU


*Defnyddiwch y dudalen hon ar gyfer unrhyw nodiadau hoffech chi eu hysgrifennu am y llyfrau. (Llungopïwch y dudalen yma i bob adolygwr.)*









# CARDIAU PLEIDLEISIO

Nawr eich bod chi wedi darllen a thrafod y llyfrau sydd ar restr fer gwobr Tir na n-Og 2026, dyma'ch cyfle chi i bleidleisio dros y llyfr gorau, yn eich barn chi. Rhowch X yn y bocs i nodi'ch enillydd chi.

**Cofiwch bleidleisio yng nghategori Barn y Darllenwyr: tlws arbennig sy'n cael ei ddyfarnu gan blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Cysgodi Tir na n-Og.**

***Gwen ac Arianrhod*** ☐

***Anfarwol*** ☐

***Y Garthen*** ☐

***Y Cae Ras*** ☐

***Gwen ac Arianrhod*** ☐

***Anfarwol*** ☐

***Y Garthen*** ☐

***Y Cae Ras*** ☐

***Gwen ac Arianrhod*** ☐

***Anfarwol*** ☐

***Y Garthen*** ☐

***Y Cae Ras*** ☐

***Gwen ac Arianrhod*** ☐

***Anfarwol*** ☐

***Y Garthen*** ☐

***Y Cae Ras*** ☐

***Gwen ac Arianrhod*** ☐

***Anfarwol*** ☐

***Y Garthen*** ☐

***Y Cae Ras*** ☐

***Gwen ac Arianrhod*** ☐

***Anfarwol*** ☐

***Y Garthen*** ☐

***Y Cae Ras*** ☐

## Beth am rannu eich profiad cysgodi ar y cyfryngau cymdeithasol?

Cofiwch dagio ni:
@gwobrautirnanogawards
a defnyddiwch
yr hashnodau:
#CaruDarllen
#TNNO2026
#CysgodiTNNO2026

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

